Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **10 Chwefror 2016** |
| **Amser:** | **10:00 – 11:05** |

**COFNODION EITHRIEDIG**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Christopher Salmon, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro Liane James (DBG)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dr Helen Morgan-Howard, Pennaeth Staff, SCHTh (HM-H)<br>Mr Heddwyn Thomas, Cyfarwyddwr Ystadau (HT)<br>Mrs Alison Perry, Cyfarwyddwr Comisiynu (ALP)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB)<br>Arol. Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (PG) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 04/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 551** | **ALP a CP i ystyried sut mae'r rhaglen Ysgogi Ein Hieuenctid yn cael ei chynnwys yn y cynigion troseddau ieuenctid newydd** | **Ar waith – i'w uno â PB 552** |
| **PB 552** | **CP i ddod a'r gwaith SHCY i ben ac adolygu trefniadau sicrhau ansawdd** | **Ar waith – to be i'w uno â PB 551** |
| **PB 553** | **Yr Heddlu i rannu ystadegau o ran y defnydd o'r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **Cwblhawyd** |
| **PB 554** | **ALP i gysylltu â De Cymru i ganfod eu bwriadau mewn perthynas â'r peilot technoleg Tagio Systemau Lleoli Byd-eang, ac ymateb i GCHTh i fynegi diddordeb HDP yn y cynllun, erbyn 18 Chwefror** | **Cwblhawyd** |
| **PB 555** | **DGHTh i drafod cynigion trwyddedau Microsoft ac Airwave gyda Chwmni TGCh yr Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 556** | **Ailystyried cynnig trwyddedau Microsoft mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn dilyn adborth DGHTh o'r drafodaeth â Chwmni TGCh yr Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **PB 557** | **Adolygu cynnydd o ran trafodaethau â byrddau iechyd lleol mewn perthynas â Gwasanaethau Meddygol Fforensig ym mis Mehefin** | **Ar waith** |
| **PB 558** | **Cynnwys cydweithio â'r sector masnachol yn y proffil rôl Cyfarwyddwr Cynorthwyol** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **PB 559** | **Egluro'r strwythur adrodd ar gyfer Cyfarwyddwr Cynorthwyol cyn hysbysebu'r swydd wag** | **Ar waith – rhannu ar ôl hysbysebu** |
| **PB 560** | **Cyflwyno crynodeb o wasanaethau teithio oddi ar gontract yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona** | **Ar waith** |
| **PB 561** | **Y PG y gyfathrebu bwriad i gyflwyno dyfeisiau llaw o fewn yr Heddlu Gwirfoddol** | **Cwblhawyd** |
| **PB 562** | **MMS i ddarparu dyddiad cwblhau ar gyfer y gwaith TG mewn perthynas â System Rheoli Achosion Gwalia erbyn diwedd y dydd** | **Ar waith – diweddariad ar 17/02/16** |
| **PB 563** | **Datrys materion TG yng Nghanolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhyw y Drenewydd mor fuan â phosibl** | **Cwblhawyd** |
| **PB 564** | **Adolygu'r cynllun Oedolion Priodol, gan gynnwys sut a pham mae'n cael ei ddefnyddio a'r gost erbyn diwedd Chwefror** | **Ar waith** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 10/02/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif penderfyniad** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 095** | **Peilota'r cynllun dargyfeirio rhag alcohol am 12 mis** | **ALP** |
| **PB 096** | **Cefnogi gwaith Golau Glas gydag yfwyr dibynnol** | **DPCC** |

**Diweddariad y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro**

Rhoddodd y DBG drosolwg o faterion gweithredol allweddol o'r wythnos diwethaf gan gynnwys ymgyrch ymwybyddiaeth cyflymder amlasiantaeth yn ysgol Nantgaredig, arést mewn perthynas â meddu ar arfau wedi'u gwahardd, yr ymateb i ymgais i hunanladd a'r arést llwyddiannus yn dilyn lladrad mewn siop gemwaith yn Noc Penfro. Mae 5 gweithiwr dal wedi'u hatal.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh y byddai cwmni TGCh yr Heddlu'n cwrdd â'r DGHTh fory a byddai'n croesawu presenoldeb o'r adran TG os yn bosibl. Nododd y CHTh bod preswylwyr Bontnewydd ar Wy wedi nodi pryderon am oryrru drwy'r pentref ac yn awyddus i sefydlu cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned. Roedd y CHTh wedi'u cynghori i gysylltu â'u Tîm Plismona Bro lleol. Ceisiodd y CHTh sicrwydd fod yr Heddlu'n hapus â'r ymateb gan GanBwyll i fynd i'r afael â meysydd pryder cymunedol. Hefyd, gofynnodd y CHTh am ddiweddariad statws mewn perthynas â chynllun Trecastell.

**Cam gweithredu: Yr Heddlu i ymateb i'r CHTh mewn perthynas ag ymateb GanBwyll i bryderon cymunedol a rhoi diweddariad ynghylch cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder Trecastell**

**Diweddariad y Prif Swyddog Ariannol**

Dywedodd y PSA bod y setliad terfynol wedi'i dderbyn, ac nid oedd wedi newid o'r drafft o ran cyllideb refeniw. Roedd y gyllideb cyfalaf wedi gostwng ers y llynedd, ac nid oedd y Gronfa Trawsnewidiol a Gwrthderfysgaeth wedi'u cadarnhau eto. Roedd y CC a'r PSA wedi cwrdd ag archwilwyr mewnol i gynllunio gwaith ar gyfer 2016/17. Gofynnodd y PSA am i feysydd ffocws ychwanegol gael eu bwydo trwy'r PSA neu'r CC.

***Praesept***

Cyflwynodd y PSA yr adroddiad a oedd wedi'i gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu. Nodwyd yr adroddiad ac atodiadau gan yr aelodau, gyda'r CHTh yn cytuno i arwyddo'r cofnod penderfyniadau perthnasol. Nododd y PSA nad oedd penderfyniad praesept y llynedd wedi'i gyhoeddi ar wefan SCHTh, ond roedd wedi'i arwyddo'n briodol a byddai'n cael ei gyhoeddi fel y bo'n briodol.

**Cam gweithredu: CHTh i arwyddo'r cofnod penderfyniad ar gyfer ei gyhoeddi, ynghyd â phenderfyniad y llynedd**

**Diweddariad y Cyfarwyddwr Adnoddau**

Dywedodd y CA y byddai'r diweddariad nesaf ar gyfer y dyfeisiau llaw'n cael ei gynnal ar 23 Chwefror, a byddai'n cynnwys meddalwedd trwyddedu arfau saethu a datganiadau e-dystion. Nododd y CHTh bod y system arfau saethu genedlaethol wrthi'n cael ei hail gomisiynu gan gwmni TGCh yr Heddlu.

***PAB 274 – Llythyrau cyrsiau moduro***

Cyflwynodd y CA yr adroddiad, gan ddweud bod cynnydd wedi'i wneud o ran prosesu llythyrau'n amserol. Roedd gwaith yn cael ei wneud â'r adran ailhyfforddi gyrwyr i alinio trefnu cyrsiau â phrosesu tocynnau. Ystyriwyd bod gwelliannau proses a chyflwyno amserlen o 3 wythnos ar gyfer cofrestru am gyrsiau wedi arwain at gynnydd o ran y rhai sydd eisiau mynychu cyrsiau addysgiadol. Dywedodd y PSA y byddai'n hoffi ymgymryd â monitro perfformiad o'r holl brosesu traffig er mwyn sicrhau nad oedd gwelliannau mewn un maes yn effeithio'n andwyol ar feysydd eraill. Cytunwyd y byddai'r mater yn cael ei adolygu mewn 3 mis. Anogodd y CHTh y dylid defnyddio dosrannu diwrnodau fel mesur o effeithiolrwydd yn hytrach na dyddiad cyfartalog, fel bod allgreigiau'n cael eu nodi. Eglurodd y CA bod hyn eisoes yn cael ei fesur ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr adolygiad nesaf. Dywedodd y PSA bod yr adran ailhyfforddi gyrwyr yn dweud eu bod yn

treulio llawer o'u hamser yn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn dilyn llythyrau a gyhoeddwyd gan GanBwyll. Awgrymwyd bod pob llythyr, gan gynnwys y rhai a gyhoeddir gan GanBwyll, yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth glir.

**Cam gweithredu: Adolygu prosesau traffig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Mai ac adolygu pob llythyr troseddau moduro**

## Comisiynu

### *Cynnig o ran dargyfeirio rhag alcohol*

Cyflwynodd ALP y cynnig, gan roi cefndir i'r tarddiad. Y cynnig oedd treialu cwrs dargyfeirio rhag alcohol neu gyffuriau am 12 mis, gan gynnig hyn i'r rhai sy'n troseddu am y tro cyntaf, yn hytrach na thalu'r ddirwy o £90 yn dilyn Hysbysiad Cyhoeddus am Anhrefn. Roedd fframwaith Gwent yn darparu opsiwn arall i'w ystyried, fodd bynnag, nid oedd cost hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Mynegodd y DBG bryder ynghylch pa un ai a fyddai unigolion yn medru talu i fod yn bresennol ar y cwrs. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r dewisiadau cyfredol sydd ar gael i dderbynwyr Hysbysiad Cyhoeddus am Anhrefn, a sut fyddai'r cynnig yn gwella'r opsiynau sydd ar gael. Ar hyn o bryd, gall unigolyn ddewis talu'r ddirwy o £90 neu fynychu'r llys. Roedd y cynnig a gyflwynwyd yn awgrymu dewis ychwanegol, sef mynychu cwrs dargyfeiriol am £45. Gofynnwyd a oedd amserlen ar gyfer cwblhau rhybudd amodol, gan y byddai hyn yn effeithio ar hyfywdra'r cynnig o gwrs. Dywedodd y CHTh bod angen cadarnhau pa un a ystyrir y peilot yn werth chweil, ac y gellir ymgymryd â'r gwaith gweinyddol. Cadarnhaodd y CA y gellir gweinyddu'r peilot ar yr amod y datblygir proses syml.

**Cam gweithredu: MMS i gadarnhau'r amserlen ar gyfer rhybuddion amodol**

**Penderfyniad: Peilota'r cynllun dargyfeirio rhag alcohol am 12 mis**

### *Gwaith Golau Glas ar Yfwyr Dibynnol*

Darparodd y CHTh ac ALP drosolwg o lythyr a dderbyniwyd gan Alcohol Concern Cymru a oedd yn ceisio cymorth i sefydlu ymagwedd Golau Glas tuag at weithio gydag yfwyr trwm hirdymor. Roedd yr aelodau'n hapus i gefnogi'r fenter a chadarnhawyd y byddai'r DGHTh yn cwrdd ag Alcohol Concern Cymru i drafod.

**Penderfyniad: Cefnogi gwaith Golau Glas gydag yfwyr dibynnol**

**Unrhyw Fusnes Arall**

***Camau gweithredu gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLl)***

Cododd ALP gam gweithredu sy'n deillio o gyfarfod diweddar y BCTLl mewn perthynas â rhannu gwybodaeth rhwng HDP a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cytunwyd y byddai'r DBG yn dilyn y mater.

**Cam Gweithredu: DBG i ddilyn camau gweithredu o gyfarfod y BCTLl mewn perthynas â rhannu data â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

***Llythyr i Gyngor Tref Porth Tywyn a Phen-bre***

Nododd yr aelodau'r llythyr, a anfonwyd gan y CHTh.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 10/02/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 565** | **Yr Heddlu i ymateb i'r CHTh mewn perthynas ag ymateb GanBwyll i bryderon cymunedol a rhoi diweddariad ynghylch cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder Trecastell** | **DBG** |
| **PB 566** | **CHTh i arwyddo'r cofnod penderfyniad ar gyfer ei gyhoeddi, ynghyd â phenderfyniad y llynedd** | **CHTh** |
| **PB 567** | **Adolygu prosesau traffig mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Mai ac adolygu pob llythyr troseddau moduro** | **CA** |
| **PB 570** | **DBG i ddilyn camau gweithredu o gyfarfod y BCTLl mewn perthynas â rhannu data â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol** | **DBG** |